# Y wybodaeth ddiweddaraf am Addysg yng Nghymru: cenhadaeth ein cenedl

**Ebrill 2018 / Rhifyn: 02**

**Croeso** i rifyn 2 y cylchlythyr sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am ddiwygiadau addysg yng Nghymru, fesul tymor.

Mae gwaith ar drawsnewid addysg yng Nghymru, gan gynnwys datblygu'r cwricwlwm newydd a threfniadau asesu i'w defnyddio mewn ysgolion erbyn 2022, wedi parhau i fynd rhagddo'n gyflym.

Mae rhaglen o gynadleddau penaethiaid ar droed er mwyn galluogi cydweithio a rhannu cynnydd â'r proffesiwn ar ein diwygiadau uchelgeisiol.

Os oes gennych adborth neu ymholiadau, e-bostiwch:
CurriculumforWales@gov.wales

Gweler isod y manylion am yr hyn sydd wedi bod yn digwydd y tymor hwn:


Cwricwlwm Trawsnewidiol

Datblygu'r Proffesiwn

Arweinyddiaeth

Gwerthuso ac Atebolrwydd

Tegwch a Lles

Rhagor o newyddion addysg

## Cwricwlwm Trawsnewidiol

Y tymor hwn, mae'r Rhwydwaith Arloesi wedi bod yn parhau i ddatblygu'r chwe 'Maes Dysgu a Phrofiad' a phennu 'beth sy'n bwysig' ar gyfer pob un. Bydd y datganiadau "beth sy'n bwysig" hyn yn nodi egwyddorion craidd pob Maes Dysgu a Phrofiad, gan gefnogi datblygu'r pedwar diben ac adlewyrchu hefyd y syniadau allweddol am wybodaeth, sgiliau a chymwyseddau disgyblaethol pwysig ar gyfer y parthau ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad.

Byddant yn rhoi man cychwyn ar gyfer datblygiad cwricwlwm lefel ysgol i ysgolion a gweithwyr proffesiynol. Mae'r cysyniadau hyn yn strwythur trefnu a fydd yn helpu i osgoi gormod o amrywiad wrth gynllunio'r cwricwlwm o ysgol i ysgol, gan ddarparu ar gyfer hyblygrwydd lleol.

Mae grwpiau arloesi Maes Dysgu a Phrofiad hefyd wedi dechrau datblygu'r manylion dilyniant ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad. Drwy'r Prosiect CAMAU, mae Prifysgol Glasgow a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn cefnogi arloeswyr ac yn cyflwyno safbwynt Addysg Uwch ar ddatblygu a disgrifio dilyniant ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad.

Mae rhifyn arbennig diweddar 'Dysg' yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am bob agwedd ar ddiwygio cwricwlwm, gan gynnwys fideos byr, papurau am ddatblygiadau Maes Dysgu a Phrofiad a rhestr o eitemau diddorol ar y blog Cwricwlwm i Gymru.

## Datblygu'r Proffesiwn

**Rhaglen Datblygu Arloeswyr – Tymor y Gwanwyn**
Mae Arloeswyr Dysgu Proffesiynol wrthi'n cyrchu rhaglen o gymorth i wella eu dealltwriaeth o'r gwaith o gynllunio'r cwricwlwm fel y gallant gefnogi'r rhwydwaith ysgolion ehangach i'w roi ar waith.

Bydd y gweithdy nesaf yn eu paratoi i arwain y gwaith o brofi'r fframwaith dilyniant drafft i gefnogi'r cwricwlwm newydd yn nhymor yr haf a nodi goblygiadau dysgu proffesiynol.

**Digwyddiad Arloesi Cenedlaethol Ionawr 2018**
Aeth Ysgolion Arloesi Dysgu Proffesiynol i ddigwyddiad cenedlaethol yn stadiwm SWALEC yng Nghaerdydd er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i gyd-arloeswyr am gynnydd wrth ddatblygu dysgu proffesiynol yng nghyd-destun diwygio'r cwricwlwm. Roedd y prif siaradwyr yn cynnwys Mark Priestley a'r Athro Mick Waters a anogodd athrawon i fwynhau'r her o roi'r cwricwlwm newydd ar waith drwy ddysgu proffesiynol https://cwricwlwmigymru.llyw.cymru/2018/03/15/her-gwneud-i-gwricwlwm-newydd-weithio-ryn-nin-bobl-broffesiynol-felly-beth-am-ei-mwynhau/

**Ysgolion fel Sefydliadau Dysgu - Arolwg**
Fel y nodwyd yng Nghenhadaeth ein Cenedl, mae gan Gymru uchelgais bod pob ysgol yn datblygu fel sefydliadau dysgu, yn gyson ag egwyddorion OECD. Gwahoddwyd 40% o ysgolion ledled Cymru i gymryd rhan mewn arolwg OECD ar-

lein i adolygu dulliau dysgu proffesiynol a gallu i wella. Bydd canfyddiadau'r arolwg yn llywio adroddiad OECD i'w gyhoeddi ym mis Gorffennaf eleni sy'n canolbwyntio ar ddatblygu ysgolion yng Nghymru fel sefydliadau dysgu.
Ceir gwybodaeth am ysgolion fel sefydliadau dysgu a model SLO Cymru yma.

**Ymchwiliad Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg – Addysg a Dysgu Proffesiynol Athrawon**

Yn 2017, comisiynodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ymchwiliad i Addysg a Dysgu Proffesiynol Athrawon. Gweler Trosolwg o'r argymhellion terfynol ac ymateb Llywodraeth Cymru.

## Arweinyddiaeth

Bydd Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol yn cael ei lansio yn yr haf. Bydd yn gweithredu ar hyd braich oddi wrth Lywodraeth Cymru a bydd yn broceru, yn cydlynu ac yn sicrhau ansawdd ystod o raglenni arweinyddiaeth.

- Cynhaliwyd cyfweliadau ar gyfer y Cadeirydd a'r Bwrdd y mis hwn. Caiff y dewisiadau eu cwblhau ym mis Ebrill.
- Mae 12 o Aelodau Cyswllt eisoes wedi'u recriwtio i weithredu fel modelau rôl ar gyfer arweinyddiaeth ysgolion. Cynhaliwyd eu rhaglen sefydlu ym mis Mawrth. Mae ein datganiad ysgrifenedig yn ymhelaethu ar hyn.
- Mae sesiwn wybodaeth ar y broses ar gyfer cymeradwyo rhaglenni wedi'i threfnu i ddarparwyr dysgu ar 20 Ebrill yn yr MRC

## Gwerthuso ac Atebolrwydd

Roedd cynhadledd penaethiaid ysgolion uwchradd cenedlaethol ym mis Mawrth yn canolbwyntio ar ddatblygu trefniadau gwerthuso ac atebolrwydd cadarn i ategu system hunanwella.

Yng nghyd-destun y cwricwlwm newydd, trafododd Penaethiaid ddull asesu ar gyfer galluogi gwelliant ac atebolrwydd. Trafodwyd hefyd syniadau ar gyfer datblygu mesurau gwerth ychwanegol i ategu trefniadau hunanwerthuso a gwella.

Arweiniodd Estyn a'r OECD sesiwn ar greu Pecyn Cymorth Hunanwerthuso Cenedlaethol. Gweler yr hysbysiad i'r wasg yma. Trafodwyd goblygiadau modelau hunanwerthuso newydd a phecynnau cymorth mewn sesiwn a arweiniwyd gan bedwar Cyfarwyddwr Rheoli Consortia Addysg.

## Tegwch a Llesiant

Rhaglen Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
Cafodd Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) ei dderbyn yn unfrydol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 12 Rhagfyr 2017 a daeth yn Ddeddf ar 24 Ionawr 2018 yn dilyn Cydsyniad Brenhinol.

Caiff y Ddeddf ei hategu gan reoliadau a Chod ADY newydd, y caiff y ddau ohonynt eu diwygio ac yna ymgynghorir arnynt yn ystod hydref 2018. Rhagwelir y bydd y ddau mewn grym erbyn diwedd 2019 yn dilyn gwaith craffu gan y Cynulliad.
Darllenwch fwy yma

## Rhagor o Newyddion Addysg

Aeth Kirsty Williams, yr Ysgrifennydd Addysg, i seremoni torri tywarchen i ddathlu lansiad swyddogol gwaith ar adeiladu safle newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd Aberhonddu ym mis Mawrth.

Mae datganoli cyflog ac amodau athrawon yn gyfle i ni godi statws y proffesiwn addysgu yng Nghymru.

Mae ysgolion ar fin derbyn £14 miliwn ar gyfer mân atgyweiriadau a gwaith cynnal a chadw o dan gynlluniau a gyhoeddwyd ym mis Mawrth.

Bydd y disgyblion disgleiriaf a mwyaf talentog yng Nghymru yn elwa ar £3 miliwn o gefnogaeth dros ddwy flynedd fel rhan o gynlluniau a gyhoeddwyd ym mis Chwefror.

Bydd £100 miliwn yn cael ei fuddsoddi dros y tair blynedd nesaf i gyflymu'r broses o gyflwyno'r Rhaglen i Sicrhau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif.

Rhwydwaith Seren yn cyhoeddi ysgoloriaeth 'sy'n newid bywyd' gyda Phrifysgol Yale, wrth i adroddiad annibynnol ddod i'r casgliad bod y prosiect yn 'ychwanegu gwerth' ac yn 'cau bylchau'

Mae gwybodaeth newydd am gategorïau ysgolion a gyhoeddwyd ym mis Chwefror yn dangos gwelliant mewn perfformiad.

"Adroddiad Estyn yn dangos bod addysg yng Nghymru yn uno mewn cenhadaeth o hunanwella" - Kirsty Williams

Ym mis Ionawr, cynhaliwyd cyfarfod cyntaf Bwrdd Cynghori Recriwtio a Chadw Athrawon.

Dilynwch ni @LlC_Addysg

Aildrydarwch a rhannwch ein hashnodau #CwricwlwmiGymru #CymhwyseddDigidol

Hoffwch a dilynwch ni ar Addysg Cymru

Yn ôl i'r brig